**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/L/LG/1953/21

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021**

Heddiw rwyf wedi gwneud Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021 drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a dônt i rym ar 30 Gorffennaf.

Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol y bwriadaf ei osod ar ôl ei gofrestru.

Yn unol â pharagraff 7(3) a 7(4) o Atodlen 7 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 5 Hydref 2021 er mwyn iddo gael parhau mewn grym.

O dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a chaiff y Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol ar gyfer cyflwyno adroddiad. Gall fod yn ddefnyddiol ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y Cyfarfod Llawn am yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 21 Medi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd